**Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – Rownd 2 – Cronfa i Weithwyr Llawrydd**

# CANLLAWIAU

Grant yw hwn i roi cymorth ariannol i weithwyr llawrydd yn y sectorau diwylliannol sy’n wynebu heriau ariannol o ganlyniad i’r pandemig COVID-19.

**AM GYMORTH**
Darllenwch y canllaw hwn. Os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â ni trwy'r sianeli isod:

Ffôn: 03000 6 03000

E-bost: FreelancerWCRF@gov.wales

**Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – DIBEN Y GRANT**
Diben y grant yw cynorthwyo gweithwyr llawrydd sy’n parhau i wynebu heriau ariannol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2021 o ganlyniad i’r pandemig COVID-19.

**Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – PWY GAIFF WNEUD CAIS?**
Mae cymorth ar gael i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol llawrydd sy’n gwneud gwaith â chanlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol, ac sy'n gweithio yn y pum is-sector allweddol:

- Y Celfyddydau;
- Y Diwydiannau Creadigol;
- Y Celfyddydau a Threftadaeth;
- Digwyddiadau;
- Diwylliant a Threftadaeth.

Ein blaenoriaeth ar gyfer y cylch cyllido hwn yw helpu’r bobl hynny y mae’r pandemig Covid-19 yn dal i effeithio arnynt (cerddorion / pobl sy’n gweithio ym maes digwyddiadau, y theatr etc).

Caiff gweithwyr llawrydd yn y diwydiant priodasau a’r diwydiant digwyddiadau wneud cais yn ystod y cylch hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld a ydych yn gymwys i gael cymorth, ewch i’r Gwiriwr Cymhwysedd: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

Byddwch hefyd yn gymwys os ydych yn cael eich cyflogi'n rhan-amser a bod gennych fusnes creadigol proffesiynol llawrydd hefyd. Fodd bynnag, nod y grant hwn yw helpu gweithwyr llawrydd sydd yn yr angen mwyaf oherwydd eu bod wedi colli incwm o ganlyniad i’r pandemig COVID-19. Bydd incwm yn cael ei ystyried wrth inni fynd ati i asesu’ch cais.

Os ydych wedi cael cymorth o’r blaen naill ai o dan Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth neu’r Cynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig (SEISS) a'ch bod yn wynebu heriau ariannol, rydych yn dal yn gymwys i gyflwyno cais i’r gronfa hon. Fodd bynnag, os ydych wedi cael cymorth o dan y Cynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig (SEISS) yn ystod cylchoedd blaenorol, ni fydd eich cais yn cael yr un blaenoriaeth â cheisiadau oddi wrth bobl ar incwm tebyg nad ydynt wedi cael cymorth o dan y Cynllun hwnnw.

Ni fyddwch yn gymwys:

- Os ydych yn weithiwr llawrydd yn y sector chwaraeon;

- Nid ar gyfer gweithwyr llawrydd sy'n gweithio ym maes ffilm a theledu, gemau fideo, meddalwedd a diwydiannau adloniant digidol eraill y bwriedir y cymorth hwn gan fod y marchnadoedd hynny bellach yn gweithredu ar eu lefelau arferol neu'n agos at y lefelau hynny. Er hynny, rydym yn deall y gallai'r sefyllfa fod yn dal i effeithio ar rai rolau penodol, gan gynnwys rhai ym maes ffilm a theledu (e.e. awduron / cerddorion). Os gellir dangos bod yr effaith hon yn ganlyniad i gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, byddwn yn derbyn ceisiadau.

Mae'r cyllid hwn yn benodol ar gyfer yr is-sectorau creadigol a diwylliannol a'r rheini y bu'n rhaid iddynt roi'r gorau i weithio a/neu sy'n cael trafferth ailddechrau oherwydd effaith y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Os yw pobl wedi llwyddo i barhau i weithio ar lefelau sy'n agos at y lefelau a welwyd yn y gorffennol (penseiri, dylunwyr graffig, dylunwyr gemau etc), gan wneud hynny ar ôl cael cymorth, neu hebddo, ni ddylent wneud cais.

**Sut mae diffinio gweithiwr llawrydd?**

Weithiau, mae gweithwyr llawrydd yn cael eu galw'n gontractwyr. Mae'n bosibl eu bod yn rhedeg eu busnes eu hunain ac maent yn cael eu diffinio'n bobl hunangyflogedig yn aml, er eu bod ychydig yn wahanol i'r hunangyflogedig. Gall gweithwyr llawrydd wneud nifer o swyddi ar ran cwmnïau gwahanol, ac yn aml, maent yn tueddu i weithio ar eu pen eu hunain. Mae gweithiwr llawrydd yn tueddu i weithio ar nifer o gontractau tymor byr, gan gynnig gwasanaethau ac amser i wahanol sefydliadau yn gyfnewid am ffi y cytunwyd arni.

Efallai y bydd y diffiniad canlynol o gymorth ichi:

- "Gellir diffinio gweithiwr llawrydd fel rhywun sy'n cael ei gomisiynu i gynhyrchu gwaith neu ddarparu gwasanaeth i gleient, ar sail contract untro neu dymor byr."
- "**Nid** yw gweithiwr llawrydd yn rhywun sy'n cynhyrchu nwyddau ac yna'n mynd â nhw i farchnad (siop adwerthu/cyfanwerthu o unrhyw fath). Ystyrir bod unigolyn o'r fath yn gynhyrchydd ar gyfer y sector manwerthu."

**Bydd angen i weithwyr llawrydd ddarparu:** Mae dogfennau wedi'u sganio a lluniau o gyfriflenni papur yn fathau derbyniol o dystiolaeth at y diben hwn. Mae ffotograffau o sgriniau sy'n dangos cyfriflenni yn dderbyniol, ond mae ffotograffau o apiau bancio symudol yn anodd iawn i'w gweld ac nid ydynt yn cael eu derbyn.

- Mae angen datganiad o incwm a gafwyd yn y blynyddoedd Ebrill 2019 – Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 – Mawrth 2021, ynghyd â chyfriflenni banc sy'n adlewyrchu'r incwm hwn ar gyfer misoedd Ionawr – Mawrth 2021. Bydd cyfriflenni banc yn ein galluogi i weld taliadau SEISS a wnaed yn ystod y cylch diweddar.

- Rhif Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) (os yw ar gael)

- CV, gwefan, neu gyfrif LinkedIn manwl.

**INCWM**

O ran incwm, rydym yn ceisio creu darlun o gyfanswm eich incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021. Mae casglu gwybodaeth am y flwyddyn flaenorol (Ebrill 2019 – Mawrth 2020) yn ein galluogi i gymharu'r incwm hwnnw â'ch incwm arferol.

Rydym yn gofyn am wybodaeth am effaith y pandemig COVID-19 ar eich incwm personol, nid ydym yn gofyn am wybodaeth am drosiant.

Dylech gynnwys incwm personol o waith llawrydd ac unrhyw waith cyflogedig, ynghyd â grantiau, cyn treth.

Er mwyn bod yn gymwys i gael y grant, mae'r meini prawf isod yn berthnasol:

- Ni ddylai cyfanswm y grantiau cymorth gawsoch yn sgil Covid-19 fod yn fwy nag 80% o'r incwm ar gyfer y flwyddyn fasnachu Ebrill 2019 – Mawrth 2021.

Bydd casglu gwybodaeth am yr incwm a ragwelir ar gyfer Ebrill 2021 – Medi 2021 yn caniatáu inni greu darlun o'r pwysau sy'n wynebu'r sector llawrydd. Nid yw'n orfodol ichi roi’r wybodaeth hon ac ni chaiff ei defnyddio i werthuso’ch cais.

Wrth asesu’ch incwm, rydym yn ystyried unrhyw symiau a gafwyd drwy SEISS (a grantiau eraill yn ôl disgresiwn), ond nid budd-daliadau neu fathau eraill o incwm megis taliadau llog neu roddion, oherwydd bod cynnal asesiad cytbwys o bob achos yn fater cymhleth.

Tystiolaeth adnabod (un o'r canlynol). Mae angen copïau wedi’u sganio, yn hytrach na’r dogfennau gwreiddiol:

i. Trwydded yrru cerdyn-llun y DU neu’r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
ii. Pasbort cyfredol wedi’i lofnodi;
iii. Tystysgrif Geni wreiddiol;
iv. Arall (nodwch).

Tystiolaeth ddiweddar am eich cyfeiriad ( o fewn y 3 mis diwethaf) (un o’r canlynol):

i. Bil cyfleustodau;
ii. Cyfriflen ffôn symudol.

Cewch hefyd ddarparu tystiolaeth ategol am waith a gollwyd, neu dystiolaeth arall i gefnogi’ch cais. Fodd bynnag, dim ond os nad yw’ch cyfriflenni banc yn adlewyrchu’r sefyllfa yr ydych wedi’i disgrifio y mae angen ichi wneud hyn. Gofynnir ichi beidio â gwneud hyn os yw’ch tabl incwm yn un hawdd i’w asesu. Cewch hefyd ddarparu manylion neu ddogfennau ategol eraill os yw hynny’n briodol.

Dyma rai enghreifftiau o sut y gallwch ddarparu’r dystiolaeth hon:
- Contract / contractau wedi’u canslo;
- Anfonebau;
- Geirda gan gyflogwr / cadarnhad gan gyflogwr fod gwaith wedi cael ei ganslo;
- Llythyr cynnig gwaith / canslo gwaith;
- Cadarnhad am grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru;
- Arall (bydd angen ichi nodi beth).

**Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – AM FAINT Y CEWCH CHI WNEUD CAIS?**
Mae grant o £2,500 ar gael i bob unigolyn, er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol iddo gyda llif arian parod i’w helpu drwy'r cyfnod pan darfwyd ar ei waith.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a'r awdurdod lleol fydd â'r disgresiwn llwyr i dalu'r grant – yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.

**ADDUNED GWEITHWYR LLAWRYDD**

Yn aml, mae gweithwyr llawrydd yn chwarae rhan weithredol yn eu cymuned, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i'n lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru alluogi diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus, yn ogystal â meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, a gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Mae cyfle bellach i weithwyr llawrydd creadigol a chyrff cyhoeddus greu partneriaeth i gyrraedd y nod hwn. Drwy'ch annog i ymrwymo i'r Adduned Gweithwyr Llawrydd, rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu cynnig eich sgiliau i'n helpu i ddod â chreadigrwydd a dychymyg i holl feysydd bywyd cyhoeddus.

Gallech gyfrannu at gyd-greu atebion gyda'r gymuned, gan gyfrannu at gynllunio a datblygu lleol neu gynnig ffyrdd newydd o ymdrin â phrosiectau cyfalaf. Gallech gyfrannu mewn meysydd fel diwylliant, iechyd neu ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd adeiledig. Efallai y bydd gennych brofiad eisoes o weithio yn y maes cyhoeddus gyda phartneriaid, efallai eich bod yn artist sy'n ymddiddori yn eich cymuned ac yn ymwneud yn helaeth â hi, yn aelod o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'n ymddiriedolwr neu'n weithredol yn eich cymuned ac yn rhywun sy'n defnyddio'ch profiad o fywyd i wneud newid cadarnhaol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o waith o'r fath, ymrwymwch i'r Adduned Gweithwyr Llawrydd. Byddwn yn defnyddio'ch manylion i roi gwybod ichi am ddatblygiadau a'ch cynnwys ynddynt. Rydym yn gwerthfawrogi sgiliau a phrofiad gweithwyr llawrydd. Byddem yn disgwyl i unrhyw waith a wneir gan weithwyr llawrydd ar ôl iddynt ymrwymo i'r Adduned fod yn waith am dâl.

Os ydych wedi ymrwymo i'r adduned yn barod, nid oes angen ichi wneud hynny eto. Byddwn yn cysylltu â chi yn y man.

**Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – SUT I WNEUD CAIS**

Gall unigolion wneud cais am y grant drwy ddefnyddio Gwiriwr Cymhwysedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar wefan Busnes Cymru: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

Os ydych yn gymwys i gael y grant, byddwch yn cael eich cyfeirio at wefan eich awdurdod lleol lle byddwch yn cael arweiniad ar sut i gyflwyno'ch cais. Dylech wneud cais drwy'r awdurdod lleol rydych yn byw ynddo yn hytrach na'r un lle'r ydych yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Os ydych yn byw mewn mwy nag un awdurdod lleol, dylech ddewis yr un lle'r ydych yn byw yn bennaf. Dim ond i un awdurdod lleol y cewch gyflwyno cais.

Bydd angen ichi lenwi'r holl feysydd y gofynnir ichi ei llenwi, ynghyd â darparu'r dogfennau tystiolaeth sy'n ofynnol. Derbynnir tystiolaeth ar ffurf dogfennau a ffotograffau wedi eu sganio at y diben hwn.

Os hoffech lenwi'r ffurflen hon mewn fformat gwahanol, ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Os nad oes gennych y cyfleusterau i lenwi'r ffurflen gais hon ar-lein, ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Bydd y Grant i Weithwyr Llawrydd yn agor ar gyfer ceisiadau o ddydd Llun 17 Mai am hanner dydd, tan ddydd Mawrth 1 Mehefin am 5 pm.

Mae gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn llwyr i bennu am ba hyd y bydd y gronfa ar gael ac i benderfynu ar y telerau ar ei chyfer. Grant yn ôl disgresiwn a gynigir o dan y Gronfa i Weithwyr Llawrydd ac nid oes unrhyw broses apelio. Pan fydd yn amlwg bod gwybodaeth ar goll o'r cais, bydd yr arfarnwr yn ceisio cysylltu â chi. Fodd bynnag, gallai hynny arwain at gryn oedi.

## Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – CANLLAWIAU AR LENWI'R FFURFLEN

**Adran 1 – Eich manylion personol**
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, 'yr ymgeisydd'.

**Adran 2 – Gwybodaeth am eich gwaith**
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am yr ystod a'r math o waith yr ydych yn ei wneud ac am eich incwm dros y 2 flynedd diwethaf, yn ogystal â rhagolwg o'ch incwm dros y 6 mis nesaf. Dylech sicrhau bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. Rydym yn casglu gwybodaeth am gyfanswm eich enillion rhwng 2019 a 2020 er mwyn i'r aseswr weld yr effaith y mae COVID wedi'i chael ar eich enillion. Rydym yn gofyn am wybodaeth am enillion yn y dyfodol er mwyn inni fedru creu darlun o'r pwysau ar y sector llawrydd. Nid oes yn rhaid ichi roi'r wybodaeth honno ac ni fydd yn cael ei defnyddio i werthuso'ch cais.

**Y ffigurau ar gyfer cyfanswm yr incwm dros y 12 mis diwethaf (Ebrill 2020 – Mawrth 2021) sy'n cael eu defnyddio i asesu'r grŵp blaenoriaeth**.

Rydych yn gwneud hunanddatganiad am eich incwm ar y ffurflen hon. Wrth asesu'ch incwm, rydym yn ystyried unrhyw symiau a gafwyd drwy SEISS a grantiau eraill yn ôl disgresiwn, ond nid budd-daliadau neu fathau eraill o incwm megis taliadau llog neu roddion, oherwydd bod cynnal asesiad cytbwys o bob achos yn fater cymhleth. Ni ddylech roi'r wybodaeth hon yn y tablau incwm.

Mae incwm yn bersonol a dylai gynnwys gwaith llawrydd ac unrhyw waith a allai fod gennych am gyflog.

Dylai incwm gael ei gofnodi fel 'crynswth' h.y. cyn i dreth cael ei dynnu

Dylai manylion grantiau sydd wedi'u hanelu at yr hunangyflogedig (fel SEISS) fynd yn yr adran incwm hunangyflogedig

Dylid nodi manylion taliadau ffyrlo yn yr adran PAYE.

Os ydych yn ansicr, neu ar gyfer grantiau eraill, rhowch fanylion yn yr adran 'arall'.

Rydym yn gofyn am gyfriflenni banc ar gyfer y cyfnod Ionawr 2021 – Mawrth 2021. Rydym yn gwneud hynny'n bennaf er mwyn cadarnhau a ydych wedi cael unrhyw SEISS ai peidio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth a roddwch inni yn cael ei defnyddio wrth arfarnu'ch cais, os byddwn yn teimlo bod angen gwneud hynny.

**Adran 3 – Effaith COVID-19 arnoch chi**
Mae angen inni ddeall sut mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio arnoch chi a'ch gwaith. Gofynnir ichi lenwi'r adran hon i'n helpu i ddeall pam mae angen cymorth arnoch drwy'r gronfa grant hon. Gallwch ddarparu rhagor o wybodaeth drwy gyflwyno CV cyfredol.

**Adran 4 – Manylion Banc**
Rhowch fanylion eich cyfrif banc oherwydd y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant ichi os bydd eich cais yn llwyddiannus – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.

**Adran 5 – Datganiadau**
Darllenwch y datganiadau'n ofalus a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y datganiadau. Sylwer y bydd angen i chi optio i mewn neu allan o'r adduned gweithwyr llawrydd. Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

**Rheoli Cymhorthdal awdurdodau statudol**

Mae'r Cyllid yn gydnaws â'r cytundebau cymwys yn rheolau Sefydliad Msnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

Mae angen ichi nodi yma unrhyw grantiau a gafwyd o dan y rheolau 'De Minimis' yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Er enghraifft, cafodd rhai o gylchoedd ceisiadau'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd eu darparu o dan y rheol De Minimis. Mae'n bosibl hefyd fod rhywfaint o gyllid yn ôl disgresiwn neu gyllid o dan y Gronfa Cadernid Economaidd wedi cael eu darparu yn y ffordd hon.

Os dyfarnwyd cyllid ichi o dan y rheolau De Minimis, bydd yr wybodaeth honno i'w gweld yn glir ar unrhyw lythyrau cynnig grant a gawsoch yn y gorffennol.

**RHESTR WIRIO**
Pan fyddwch yn anfon eich ffurflen gais atom, rhaid ichi hefyd anfon tystiolaeth adnabod, cyfriflenni banc ar gyfer y cyfnod mis Ionawr – mis Mawrth 2021, rhagor o wybodaeth os oes ei hangen, cyfeirnod treth unigryw (UTR) / tystiolaeth berthnasol arall os oes ei hangen, a CV / proffil manwl ar gyfrif LinkedIn, fel y nodir ar dudalen 1 a 2 o'r ddogfen hon.

**Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD**

**BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS DDOD I LAW?**
Anfonir cydnabyddiaeth atoch ymhen deg diwrnod gwaith i gadarnhau bod eich cais wedi dod i law. Penderfynir ar geisiadau ar sail yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais, ar sail y dystiolaeth gysylltiedig ac ar ôl gwirio gwybodaeth o ffynonellau arall. Os bydd unrhyw ddata'n anghyflawn neu'n anghywir neu os na fyddwch wedi rhoi digon o dystiolaeth, byddwn yn cysylltu â chi, ond os na fydd ymholiadau'n cael eu bodloni, **bydd y cais yn cael ei wrthod**. Ein nod yw prosesu ceisiadau grant ymhen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y cynllun yn cau, ond mae'n bosibl y bydd yn cymryd mwy o amser mewn ambell achos.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i gael cymorth ac yna, byddant yn cael eu blaenoriaethau yn unol â hynny. Os bydd cyllid ychwanegol yn dod ar gael o fewn cyfnod byr, mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr a fydd yn is yn nhrefn blaenoriaeth yn cael cymorth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cyllid ychwanegol yn dod ar gael.

Er mwyn rheoli'r cynllun hwn, sy'n un ar sail blaenoriaeth, mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ni fyddwn yn rhoi gwybod i unrhyw ymgeiswyr am ganlyniad eu cais nac yn prosesu unrhyw daliadau tan ar ôl i'r cynllun gau.

**BLAENORIAETHU**

Bydd grantiau'n cael eu dyrannu yn y drefn flaenoriaeth a ganlyn:

| Blaenoriaeth | Lefel incwm yn 2020 – 21 (gan gynnwys unrhyw daliadau SEISS) |
|---|---|
| 1 | |
| 2a | Incwm < £4,999 a dim SEISS yn y gorffennol |
| 2b | Incwm < £4,999 |
| 3a | Incwm rhwng £5,000 a £9,999 a dim SEISS yn y gorffennol |
| 3b | Incwm rhwng £5,000 a £9,999 |
| 4a | Incwm rhwng £10,000 a £14,999 a dim SEISS yn y gorffennol |
| 4b | Incwm rhwng £10,000 a £14,999 |
| 5a | Incwm rhwng £14,999 a £19,999 a dim SEISS yn y gorffennol |
| 5b | Incwm rhwng £14,999 a £19,999 |
| 6a | Incwm dros £20,000 a dim SEISS yn y gorffennol |
| 6b | Incwm dros £20,000 |

Ym mhob un o'r bandiau, mae'r rheini sydd wedi cael cymorth drwy SEISS yn cael blaenoriaeth is na'r rheini sydd heb gael cymorth o'r fath.

**Os yw'ch cais yn cael ei gymeradwyo**, byddwch yn cael llythyr cynnig grant drwy'r e-bost yn rhoi gwybod ichi bod grant yn cael ei ddyfarnu ichi. Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw. Mae'n bosibl y bydd gwaith Diwydrwydd Dyladwy yn cael ei wneud ar adegau yn ystod y broses gymeradwyo a hefyd ar ei hôl. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn ichi am wybodaeth eglurhaol ar unrhyw adeg.

**Os nad yw'ch cais yn llwyddiannus**, byddwch yn cael e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

## Y GRANT I WEITHWYR LLAWRYDD – AD-DALU'R GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn gofyn iddynt ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol os daw tystiolaeth i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys i gael y Grant i Weithwyr Llawrydd.